# YMRWYMIAD DIRPRWYON PANEL

Caiff dirprwyon panel eu penodi a'u rheoli drwy Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i ddirprwyon a benodir i'r panel gyflawni eu rôl fel dirprwy i safon eithriadol o uchel; mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r gofynion hyn a sut bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gweithio gyda chi i sicrhau eu bod yn cael eu bodloni. Disgwylir i bob dirprwy a benodir i'r panel lofnodi'r cytundeb ar ddiwedd y ddogfen hon.

Gall yr ymrwymiadau a nodir yn y ddogfen hon newid a bydd aelodau'r panel yn cael gwybod am unrhyw newidiadau sylweddol ar e-bost.

Gallai methu â chydymffurfio â'r ymrwymiadau hyn arwain at dynnu aelod oddi ar y panel.

Fel dirprwyon panel, mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn disgwyl y byddwch yn:

- Cydymffurfio'n llawn a phob agwedd ar eich gorchymyn llys.
- Ymrwymo'n llwyr i egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer, yr Ddeddf Galluedd Meddyliol, Rheoliadau Atwrneiaeth Arhosol, Atwrneiaeth Barhaus a Gwarcheidwad 2007 a Safonau'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar gyfer Dirprwyon.
- Bodloni gofynion eich corff rheoleiddio proffesiynol a chynghori Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus o unrhyw atgyfeiriad i dribiwnlys disgyblu.
- Rhoi prosesau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod eich ymarfer yn cyd-fynd â chyfraith achosion newydd, a chanllawiau a gyhoeddir gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.
- Rhoi mecanweithiau ar waith i gynyddu eich llwyth achosion pe bai angen derbyn achosion ychwanegol ar fyr rybudd.
- Cwblhau datganiad dirprwy COP4 a ffurflenni cysylltiedig y Llys Gwarchod pan ofynnir i chi wneud hynny gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus neu i roi rheswm dilys pam na allwch dderbyn achos. Efallai y bydd gofyn i chi dderbyn nifer o achosion gydag ystadau o werth isel. Nid yw gwerth ystad yn cael ei ystyried gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus fel rheswm ynddo'i hun i ddirprwy panel wrthod derbyn achos. Yn yr un modd, unwaith y bydd dirprwy panel wedi'i benodi ar achos, nid yw Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn disgwyl i'r dirprwy hwnnw geisio cael ei ryddhau oherwydd bod gwerth yr achos wedi lleihau dros amser. Os oes gan Ddirprwy Panel bryder penodol ynglŷn â derbyn achos; er enghraifft, eu bod yn credu y gallai fod gwrthdaro buddiannau neu rwystr arall, dylent gysylltu â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar frys i drafod hyn.
- Rhoi gwybodaeth i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn flynyddol o leiaf, neu yn ôl yr angen, ynglŷn â'r gyfran o'ch llwyth achosion a gwmpesir gan gostau sefydlog.
- Yn gallu ac yn barod i reoli ystod ac amrywiaeth o achosion dirprwyaeth.

- Ymgysylltu a Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus a darparu gwybodaeth yn ôl yr angen. Bydd hyn yn cynnwys rhoi gwybod i ni os ydych yn bwriadu gadael eich sefydliad presennol.

Fel dirprwy panel, bydd disgwyl i chi gadw at safonau uchel o ran proffesiynoldeb ac ymddygiad. Bydd disgwyl i chi weithredu:

- Er lles pennaf pob P
- Mewn ffordd sy'n cynnal ffydd a hyder y cyhoedd yn y Gwarcheidwad Cyhoeddus a'i Swyddfa
- Gydag annibyniaeth, gonestrwydd ac uniondeb
- Mewn ffordd sy'n meithrin cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

## Adolygiad o Statws Dirprwyon Panel

Bydd Dirprwy Bwyllgor y Panel yn OPG yn adolygu’r panel a’i aelodaeth yn rheolaidd, gan edrych ar gydymffurfiaeth holl ddirprwyon y panel â’r ddogfen ymrwymiadau hon. Byddwn yn cysylltu â holl ddirprwyon y panel ar ôl pob adolygiad i roi gwybod i chi naill ai ein bod yn hapus i chi aros ar y panel neu, os bydd unrhyw bryderon yn cael eu hamlygu, i drafod y rhain gyda chi; gall pryderon arwain at gynnal ymchwiliad. Gall y pwyllgor hwn hefyd gyfarfod i ystyried materion difrifol a/neu frys. Bydd Dirprwy Bwyllgor y Panel hefyd yn ystyried unrhyw geisiadau newydd i ymuno â’r panel yn ystod ymgyrchoedd recriwtio yn y dyfodol a bydd yn sicrhau bod y rhestr a gyhoeddir o ddirprwyon y panel yn gywir ac yn gyfredol.

Bydd gan y Pwyllgor Dirprwyon Panel y pŵer i atal dirprwy o’r panel (ni fydd unrhyw achosion panel newydd wedi’u clustnodi iddynt) na thynnu dirprwy oddi ar y panel. Os caiff dirprwy panel ei atal neu ei dynnu oddi ar y panel, nid yw hyn yn effeithio ar eu rhwymedigaeth i barhau i ddarparu gwasanaethau dirprwyaeth ar eu llwyth achosion presennol hyd nes y daw achosion o’r fath i ben neu oni bai y dywedir yn wahanol gan y Llys.

Ni chaiff nifer aelodau'r panel ei gapio, er y gellir ailystyried hyn, a gosod terfyn yn unol ag anghenion busnes. Bydd yr angen busnes yn ystyried rheolaeth a goruchwyliaeth barhaus y panel, a llwyth achosion posib yn y dyfodol.

## Disgwyliadau Aelodau’r Panel o Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Fel aelod o’r panel, gallwch ddisgwyl y canlynol wrth Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus:

- Byddwn yn cyfathrebu â chi yn glir, yn briodol ac yn amserol, gan gynnwys ymateb i unrhyw bryderon.  Bydd gan Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus dîm Dirprwyon Panel penodol a fydd yn bwynt cyswllt i chi gyda ni. Gellir rhannu unrhyw wybodaeth a ddarperir i ni gyda'r Llys.

- Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau, datblygiadau neu faterion arwyddocaol sy'n effeithio ar eich rôl neu’ch safle ar y panel.
- Bydd eich enw yn ymddangos ar GOV.UK ar y rhestr o ddirprwyon panel a benodir gan Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus.
- Os ydych yn mynegi pryder am eich gwaith fel aelod o'r panel neu sut mae Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn eich goruchwylio, edrychir ar y pryder hwnnw yn drylwyr ac yn brydlon.
- Bydd dirprwyon panel yn cael y cyfle, os ydynt yn dymuno, i gael eu hystyried i fod ar banel Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus o warcheidwaid ar gyfer pobl sydd ar goll.

Nid yw cael eich penodi i’r panel yn sicrhau y cewch eich penodi i reoli achos yn rhinwedd eich swydd fel dirprwy panel. Lle bo Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn dewis dirprwy panel i’r Llys ei ystyried, bydd Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn ymdrechu i glustnodi achosion i’r dirprwy mwyaf priodol gan gyfeirio at leoliad daearyddol ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

**Apwyntiad ar y cyd ac yn unigol**

O bryd i’w gilydd, gall fod yn briodol i ddirprwy panel gael ei benodi ar y cyd ac yn unigol, er enghraifft, gan gydweithiwr o’r un sefydliad nad yw’n aelod o’r panel. Mewn achosion o’r fath, byddai Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus o’r farn mai cyfrifoldeb yr aelod panel yw sicrhau bod y ddirprwyaeth yn cael ei rheoli yn unol â'r ymrwymiadau a nodir yn y ddogfen hon. Pan wneir penodiad ar y cyd ac yn unigol, a bod Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn hapus bod y dirprwy nad yw'n aelod o'r panel yn darparu gwasanaeth sy'n gymesur â'r ymrwymiadau hyn, mae Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus o’r farn y gall y profiad hwn fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio olyniaeth, er enghraifft, os yw’r aelod panel yn bwriadu ymddeol. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn croesawu cais gan y dirprwy ar y cyd a’r dirprwy unigol i wneud cais i ymuno â’r panel yn eu rhinwedd eu hunain.

Rwy’n cytuno i gadw at y gofynion ar gyfer dirprwyon panel:

Dyddiad:

Llofnodwyd: ………………………………………………….

Amy Holmes Gwarcheidwad Cyhoeddus

Llofnodwyd: ………………………………………………….

Dirprwy Panel